# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Ionawr 2015 i'w hateb ar 4 Chwefror 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Christine Chapman (Cwm Cynon)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfanswm y dyraniad cyllidebol i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0511(FIN)

2. **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o unrhyw bwerau ariannol a allai gael eu datganoli i Gymru fel rhan o'r broses dydd gwyl Dewi? OAQ(4)0519(FIN)

3. **Gwyn Price (Islwyn)**: Pa ffactorau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt wrth ddyrannu cyllid i gyllideb yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth? OAQ(4)0508(FIN)

4. **Russell George (Sir Drefaldwyn)**: Pa ffactorau y rhoddodd y Gweinidog ystyriaeth iddynt wrth ddyrannu cyllid i'r gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0506(FIN)

5. **Christine Chapman (Cwm Cynon)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y defnydd o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0512(FIN)

6. **Alun Ffred Jones (Arfon)**: Pa ganran o wariant caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n cael ei ddyfarnu i gwmnïau yng Nghymru? OAQ(4)0501(FIN)**W**

7. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Pa ffactorau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt wrth ddyrannu cyllid i'r gyllideb cymunedau a threchu tlodi? OAQ(4)0509(FIN)

**8. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa gynnydd a wnaed o ran datblygu trysorlys Cymreig yn dilyn cyhoeddi Papur Trysorlys Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0504(FIN)**W**

**9. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pryd fydd y Gweinidog Cyllid yn cynnal ei chyfarfod nesaf gyda Gweinidogion cyllid llywodraethau eraill yn y DU? OAQ(4)0505(FIN)**W**

**10. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllidebol i'r portffolio addysg a sgiliau? OAQ(4)0503(FIN)

**11. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllidebol i bortffolio'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16? OAQ(4)0516(FIN)

**12. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Beth yw'r gost cyfredol i Lywodraeth Cymru o ariannu cynlluniau PFI? OAQ(4)0500(FIN)

**13. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol y dreth stamp yng Nghymru? OAQ(4)0515(FIN)

**14. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gymeradwyo prosiectau o dan raglenni cyllid newydd yr UE? OAQ(4)0514(FIN)

**15. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r gostyngiad mewn termau real yn y gyllideb ar gyfer Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0510(FIN)

## Gofyn i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel cyflogau uwch swyddogion cyngor yng Nghymru? OAQ(4)0528(PS)

2. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch atebolrwydd cwmnïau a sefydliadau hyd braich a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau awdurdodau lleol? OAQ(4)0524(PS)

3. **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i grïwyr tref yng Nghymru? OAQ(4)0520(PS)

4. **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd polisi Llywodraeth Cymru ar gyfiawnder ieuenctid yng Nghymru? OAQ(4)0526(PS)

5. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r opsiynau y mae'n eu ffafrio ar gyfer uno awdurdodau lleol yng Nghanol De Cymru, yn dilyn ei benderfyniad i wrthod cynigion ar gyfer uno Cyngor Bro Morgannwg gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr? OAQ(4)0529(PS)

6. **Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid i gefnogi gwasanaethau cam-drin domestig? OAQ(4)0519(PS)

7. **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Sut y mae'r Gweinidog yn cyflawni ei gyfrifoldeb o gysylltu ag awdurdodau heddlu? OAQ(4)0518(PS)**W**

8. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y costau y mae awdurdodau lleol wedi mynd iddynt wrth baratoi ar gyfer uno gwirfoddol? OAQ(4)0523(PS)

9. **Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei fwriadau o ran ad-drefnu llywodraeth leol yn y gorllewin? OAQ(4)0522 (PS)**W**

10. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amodau a chyflog staff y gwasanaeth tân? OAQ(4)0525(PS)**W**

11. **Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ad-drefnu llywodraeth leol yn ne Cymru? OAQ(4)0527(PS)

12. **Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl swyddogion monitro yng Nghymru? OAQ(4)0530(PS)**W**

13. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y dylai awdurdodau lleol ymgynghori wrth newid gwasanaethau? OAQ(4)0516(PS)

14. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran gwerthusiadau swyddi gan awdurdodau lleol Cymru o dan y cytundeb statws sengl? OAQ(4)0514(PS)

15. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynllunio busnes mewn gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0521(PS)